# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 21 Medi 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(16)

**1. Cwestiynau Cyllid i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**14.17**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Trosglwyddwyd cwestiwn 8 i'w ateb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Cafodd cwestiynau 10 a 11 eu grwpio.

**14.57**
**3. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

**NNDM4801 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

1. Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig); a

2. Nick Ramsay yn Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

**NNDM4802 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Antoinette Sandbach (Ceidwadwyr Cymreig).

**NNDM4803 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig).

**NNDM4804 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig).

**NNDM4805 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle William Graham (Ceidwadwyr Cymreig).

**NNDM4806 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**14.58**
**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4798 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder bod llai na hanner gorsafoedd rheilffordd Cymru yn hollol hygyrch i bobl anabl;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch, drwy ddarparu gwybodaeth glyweledol ac ymestyn y Cerdyn Bws Cydymaith;

b) Hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff mewn perthynas â gofynion teithwyr anabl.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 33 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn ymgynghori'n llawn â phobl anabl a chynrychiolwyr grwpiau anabledd wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder bod llai na hanner gorsafoedd rheilffordd Cymru yn hollol hygyrch i bobl anabl;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch, drwy ddarparu gwybodaeth glyweledol ac ymestyn y Cerdyn Bws Cydymaith;

b) Hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff mewn perthynas â gofynion teithwyr anabl.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn ymgynghori'n llawn â phobl anabl a chynrychiolwyr grwpiau anabledd wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'I ddiwygio**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant I'r cynnig, nid yw'r cynnig wedi gymeradwyo.**

**16.02**
**5. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4800 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) Y toriadau difrifol yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru;

b) Y diffyg gweithredu a fu gan Lywodraeth gyfredol Cymru i ganfod a denu ffynonellau newydd o gyllid i Gymru; ac

c) Effeithiau’r hinsawdd economaidd bresennol, gan gynnwys yr anawsterau sy’n wynebu busnesau Cymru oherwydd yr amodau byd-eang sy’n arafu a’r bygythiadau i swyddi yn sgil hynny; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Mynd ati’n rhagweithiol i chwilio am ffrydiau ariannu ychwanegol i Gymru yn yr un modd ag y mae llywodraethau gwledydd datganoledig eraill wedi'i wneud;

b) Gweithio gyda’r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno newidiadau i arferion caffael ar frys er mwyn ysgogi diwydiant a chreu swyddi yng Nghymru; a

c) Chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gyflwyno toriad dros dro mewn TAW er mwyn ysgogi twf economaidd ymhellach.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 45 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1a) a rhoi yn ei le:

'Yr angen i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd gorau o’r arian cyfalaf sydd ar gael yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 43 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1a), ar ôl “Llywodraeth Cymru” rhoi, “ac o dan gynlluniau a gyhoeddwyd gan Alastair Darling yn ei gyllideb yn 2009, byddai toriadau o 45% dros 3 blynedd yng nghyllideb cyfalaf Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu “diffyg ” ym mhwynt 1b).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 27 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2c) a rhoi yn ei le:

Sefydlu cynllun partneriaeth cyhoeddus-preifat ‘Gwnaed yng Nghymru’ fel rhan o gynllun Seilwaith Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 43 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 2c).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad i weithio’n adeiladol ar y broses debyg i Calman sy’n cael ei chynnal gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4800 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) Y toriadau difrifol yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru;

b) Y gweithredu a fu gan Lywodraeth gyfredol Cymru i ganfod a denu ffynonellau newydd o gyllid i Gymru; ac

c) Effeithiau'r hinsawdd economaidd bresennol, gan gynnwys yr anawsterau sy'n wynebu busnesau Cymru oherwydd yr amodau byd-eang sy'n arafu a'r bygythiadau i swyddi yn sgil hynny; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffrydiau ariannu ychwanegol i Gymru yn yr un modd ag y mae llywodraethau gwledydd datganoledig eraill wedi'i wneud;

b) Gweithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno newidiadau i arferion caffael ar frys er mwyn ysgogi diwydiant a chreu swyddi yng Nghymru; a

c) Sefydlu cynllun partneriaeth cyhoeddus-preifat 'Gwnaed yng Nghymru' fel rhan o gynllun Seilwaith Cymru.

3. Yn galw ar yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad i weithio'n adeiladol ar y broses debyg i Calman sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth y DU.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 26 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.07**
**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4799 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder ynghylch y diffyg tryloywder gan Lywodraeth Cymru ynghylch dyfodol llywodraeth leol;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd bod llywodraeth leol yn rhan sylfaenol o ddemocratiaeth yng Nghymru; a

3. Yn galw am ddadl lawn ac agored ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 34 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le

Yn nodi'r cyfarwyddyd clir a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, gan gynnwys yn y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf ac yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2011.

Linc i bapur "Y dull o gydweithredu'n rhanbarthol: hyrwyddo cysoni" (PC 37-04) ar gyfer cyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 21 Gorffennaf 2011.

http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/council/agendas/37thmeeting/?skip=1&lang=cy

Linc i Ddatganiad 13 Gorffennaf 2011

http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/13julypublicservices/?lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 27 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn cydnabod y pwysau sylweddol a roddir ar lywodraeth leol o ganlyniad i'r toriadau mewn cyllid a orfodwyd gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 17 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 3, ar ôl 'gwasanaethau cyhoeddus' rhoi 'sy'n cynnwys trafodaeth am ad-drefnu a'r gwasanaethau y tu allan i lywodraeth leol fel iechyd, addysg uwch ac addysg bellach, trafnidiaeth a datblygu economaidd a chymunedol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn dal yn bryderus am y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru i uno awdurdodau lleol drwy is-ddeddfwriaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder am y posibilrwydd o sefydlu chwe grŵp rhanbarthol o awdurdodau lleol yn ogystal â phedwar grŵp addysg rhanbarthol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cyfarwyddyd clir a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, gan gynnwys yn y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf ac yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2011.

Linc i bapur "Y dull o gydweithredu'n rhanbarthol: hyrwyddo cysoni" (PC 37-04) ar gyfer cyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 21 Gorffennaf 2011.

http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/council/agendas/37thmeeting/?skip=1&lang=cy

Linc i Ddatganiad 13 Gorffennaf 2011

http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/13julypublicservices/?lang=cy

2. Yn cydnabod pwysigrwydd bod llywodraeth leol yn rhan sylfaenol o ddemocratiaeth yng Nghymru;

3. Yn cydnabod y pwysau sylweddol a roddir ar lywodraeth leol o ganlyniad i'r toriadau mewn cyllid a orfodwyd gan Lywodraeth y DU; a

4. Yn galw am ddadl lawn ac agored ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys trafodaeth am ad-drefnu a'r gwasanaethau y tu allan i lywodraeth leol fel iechyd, addysg uwch ac addysg bellach, trafnidiaeth a datblygu economaidd a chymunedol .

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 27 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.12**
**Cyfnod pleidleisio**

**18.17**
**7. Dadl Fer**

**NDM4797 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):**

Yr Asiantaeth Cynnal Plant – Yr Angen am Newid

Daeth y cyfarfod i ben am 18.41

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 27 Medi 2011**